# Gofod gwyrdd ar gyfer meddwl yn greadigol



parc busnes
Llanelwy

St Asaph
business park




# Calon menter Gogledd Cymru

**Holl gyfleusterau busnes modern mewn lleoliad gwledig ysbrydoledig. Croeso i Barc Busnes Llanelwy, calon menter Gogledd Cymru.**

**Nid oes yna unrhyw Barc Busnes arall â'r amgylchedd maes glas, dwysedd isel ar yr un raddfa, cysylltiadau trafnidiaeth gwych na lleoliad canolog strategol.**

**Yma gall eich sefydliad ddod o hyd i'r holl le sydd ei angen arno i dyfu, mewn amgylchedd sy'n byrlymu gyda chreadigrwydd ac arloesedd. Gofod gwyrdd ar gyfer meddwl yn greadigol.**




Bydd llecyn yn rhywle ymysg y 90 acer (36 hectar) o'r Parc Busnes gyda digonedd o barcio a chyswllt band llydan ffibr fyddai'n ddelfrydol ar gyfer eich busnes. Ac os ydych awydd gwthio'r ffiniau, mae mwy na 80 acer (32 hectar) o dir ychwanegol ar gael ar gyfer datblygiad.

# Dod o hyd i'r gofod cywir

Canolbwynt y Parc yw'r Ganolfan Dechnoleg OpTIC gan Brifysgol Glyndŵr, sy'n cynnig gofod datblygu busnes, neuadd ddarlithio, ystafelloedd cynhadledd a chyfarfod a'r caffi Ffres byrlymus a gwasanaeth arlwyo.

Mewn mannau eraill ar y safle mae yna ystod o lety modern ar gyfer swyddfeydd, ymchwil a datblygiad neu ddiwydiant – ym mhob maint hyd at 300,000 troedfedd sgwâr (28,000 metr sgwâr). Ond nid yw'r amgylchedd busnes hyblyg, ansawdd uchel hwn yn codi'r premiwm fyddech chi'n ei ddisgwyl. Mae prisiau rhentu swyddfa yn gystadleuol iawn.



**"Mae ein canolfan ddatblygu unigryw yn cynnig unrhyw beth y dymunwch, o ddesg boeth i labordy llawn offer gyda'r offer pwrpasol."**

**Caroline Gray, Canolfan OpTIC**



Edrychwch o'ch amgylch. Mae'r bleidlais hyder fwyaf amlwg ym Mharc Busnes Llanelwy gan y 70 sefydliad sydd yma'n barod – ac yn ysbrydoli ei gilydd yn barhaus ar gyfer hyd yn oed mwy o arloesi.

Mae'r hinsawdd busnes cyfoethog hwn wedi'i gydnabod fel canolbwynt diwydiant opto-electroneg y DU. Mae cynnyrch gan gwmnïau o safon fel Qioptiq yn canfod eu ffordd o Lanelwy ar delesgopau anferth, awyrennau ymladd a phob lloeren unigol a lansiwyd yn y byd gorllewinol.

# Cwrdd â'r cymdogion

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol yn parhau i ysgogi. Ond mae'r Parc Busnes hefyd yn gartref i gwmnïau sy'n arwain ym maes peirianneg, ynni, creadigrwydd a gwasanaethau busnes.

Mae'r ffaith bod cyrff cyhoeddus hanfodol fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans, Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyd wedi eu lleoli yma yn dweud y cyfan am ei leoliad strategol.



**"Mae'r parc busnes yn berffaith. Mae gennym swyddfeydd gwych, digon o fannau parcio, mae popeth yn gweithio."**

**Chris Morgans, Sage & Company Business Advisers Ltd**




# Cysylltiadau cyflym

Nid yw ystadegau yn dweud celwydd. Gyda'i gyffordd ei hun ar yr A55, mae Parc Busnes Llanelwy ymysg y gorau a leolwyd yn y DU.

Mae meysydd awyr rhyngwladol Manceinion a Lerpwl o fewn awr i ffwrdd. Mae o fewn hanner awr i ddinas Caer a thraffordd yr M56 a 15 munud i ddal trên uniongyrchol i Lundain. Byddwch yn cyrraedd porthladd Caergybi gyda fferïau cyflym i Ddulyn o fewn awr.

Mae Llanelwy ar garreg drws Pwerdy Gogledd Lloegr a rhan o Ardal Myrswy sydd werth £24 biliwn – economi mwy na rhanbarth Dinas Caerdydd.

Felly peidiwch â chael eich twyllo gan yr holl ofod gwyrdd. Mae Llanelwy wirioneddol wedi'i chysylltu'n dda. A chyda phoblogaeth ranbarthol o 800,000, mae'r bobl a'r sgiliau yno i helpu eich busnes ddefnyddio'r cyfleoedd anferth hyn.



"Mae Parc Busnes Llanelwy wedi'i amgylchynu gan y môr a'r mynyddoedd, ac eto mae o fewn awr i feysydd awyr rhyngwladol."

Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Economi a Pharth Cyhoeddus, Cyngor Sir Ddinbych



# Byw bywyd

Mae rhai pobl yn cyfeirio ato fel cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'n well gennym feddwl amdano fel hyn: ychydig funudau ar ôl gadael y gwaith gallech fod yn cerdded ar hyd y traeth neu'n dringo mynydd. Nid eistedd mewn tagfeydd traffig.

Mae Llanelwy wedi'i lleoli ym mhrydferthwch Dyffryn Clwyd, yn agos at arfordir Gogledd Cymru gyda'r cyrchfannau glan môr byd enwog. I'r gorllewin mae Parc Cenedlaethol Eryri – i'r dwyrain mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Ond nid yw'n un cae chwarae antur mawr yn unig. Mae rhai o fwydydd a diodydd mwyaf blasus Cymru yn Sir Ddinbych, gyda'r celfyddydau byrlymus, saith tref farchnad sy'n ffynnu, ac yn Llanelwy, un o ddinasoedd mwyaf newydd Prydain – gyda 1,500 mlynedd o hanes.

Mae hyn i gyd yn ei hun yn wych. Ond gan fod pobl hapus hefyd yn tueddu i fod yn fwy arloesol, cynhyrchiol ac yn weithwyr ymroddedig, mae'n dda ar gyfer y llinell isaf hefyd.



"Os ydych yn mwynhau hwylio, pysgota, cerdded, beicio, golff – popeth sy'n cynnig ansawdd bywyd – mae'n ardal wych."

**Peter White, Rheolwr Gyfarwyddwr Qioptiq: Llanelwy a Bodelwyddan**





Mae Parc Busnes Llanelwy yn cynnig y gofod ar gyfer datblygu. Y cyfleusterau i gynnal cwmnïau o bob maint. Y cysylltiadau cyfathrebu ac isadeiledd trafnidiaeth. Y bobl a'r sgiliau. Hanes blaenorol busnes ar draws sawl sector. Yr ymrwymiad i ragoriaeth, arloesi a chreadigrwydd. Y lleoliad a'r ffordd o fyw.

# Cymorth lefel uchel

Mae hynny'n ticio digon o flychau. Ond nid dyna'r cyfan mae eich sefydliad ei angen i ffynnu. Rydych hefyd angen y math o gefnogaeth sy'n addas i Barc Busnes chwarae rôl strategol yn yr economi rhanbarthol.

Dyna pam bod Parc Busnes Llanelwy bob amser wedi bod yn brif flaenoriaeth ar lefelau uchaf Llywodraeth Cymru. A pham y gallwch ddibynnu ar Gyngor Sir Ddinbych sy'n gyfeillgar i fusnes i annog buddsoddiad, lleihau biwrocratiaeth a chreu'r amodau cywir i'ch cwmni chi ffynnu.



**"Rydym wedi ailfuddsoddi'n gyson yn yr eiddo ar y Parc Busnes i sicrhau ei fod yn parhau'n gystadleuol ac yn lle deniadol i fuddsoddwyr."**

**Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Llywodraeth Cymru**



Mae Parc Busnes Llanelwy bob amser yn agored ar gyfer busnes. Ewch i'n gwefan ar gyfer y rhestr ddiweddaraf o lefydd gwag, cyfleoedd datblygu a sefydliadau y byddwch yn dod ar eu traws. Os ydych eisiau gwybod mwy, gallwch gysylltu â ni.  Rydym ni yma i helpu eich busnes dyfu.

# Cymryd y camau

www.stasaphbusinesspark.org.uk/cy/

datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk

01824 708414

Parc Busnes Llanelwy  LL17 0JD

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Buddsoddi yn SirDdinbych

Llywodraeth Cymru Welsh Government

parc busnes Llanelwy

St Asaph business park